Ardal Gadwraeth Llansanffraid

Crynodeb o'r Arfarniad a'r Cynllun Rheoli ar gyfer Ymgynghori

Tachwedd 2026



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o Asesiad a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Llansantffraed ac fe'i darperir er gwybodaeth yn unig. Mae'r ymgynghoriad ar y Asesiad a'r Cynllun Rheoli llawn, ac ni ellir derbyn ymatebion ymgynghori ar sail y crynodeb hwn yn unig. Cyfeiriwch at yr Asesiad a'r Cynllun Rheoli llawn cyn cyflwyno eich ymateb. I weld y fersiwn Gymraeg, sganiwch y côd isod:

Rhan 1: Arfarniad Ardal Gadwraeth Llansanffraid - Crynodeb

Beth yw'r Ardal Gadwraeth?

Mae Ardal Gadwraeth Llansanffraid yn cwmpasu oddeutu 29 hectar ac yn cynnwys calon hanesyddol Llansanffraid, sef Eglwys Sant Ffraed, a llawer o Forfa Esgob, sy'n enghraifft brin o system caeau agored ganoloesol sydd wedi goroesi. Dynodwyd yr ardal fel Ardal Gadwraeth ym 1993.

Mae'r Arfarniad Ardal Gadwraeth yn nodi pam mae'r ardal yn arbennig, pa nodweddion sy'n rhoi ei chymeriad iddi, a pha bwysau a allai niweidio'r cymeriad hwnnw. Ei nod yw darparu gwybodaeth i helpu tywys penderfyniadau cynllunio a rheolaeth yr ardal yn y dyfodol.

Beth sy'n gwneud Llansanffraid yn arbennig?

Un o nodweddion pwysicaf yr ardal yw Morfa Esgob a'i llain-gaeau hanesyddol a adwaenir yn lleol fel 'slangs' neu 'lleiniau'. Mae'r patrwm cae canoloesol hwn yn brin iawn yng Nghymru ac mae'n darparu tystiolaeth bwysig o arferion ffermio a pherchenogaeth tir hanesyddol. Er gwaethaf newidiadau dros amser, mae llawer o'r system gaeau yn bodoli o hyd.

Mae cymeriad yr ardal hefyd yn dod o:

- Fythynnod cerrig a gwyngalchog traddodiadol;
- Toeon llechi a ffenestri codi traddodiadol;
- Eglwys restredig Gradd II* Sant Ffraed;
- Ffiniau caeau neu gloddiau sydd wedi goroesi;
- Y lleoliad agored, gwledig ac arfordirol;
- Rhwydwaith cryf o lwybrau traed cyhoeddus sy'n galluogi pobl i brofi'r dirwedd hanesyddol.

Beth yw'r prif broblemau?

Er bod llawer wedi goroesi, mae cymeriad arbennig yr ardal dan fygythiad. Mae'r Arfarniad yn nodi sawl pryder:

- Llain-gaeau hanesyddol yn cael eu colli neu eu cyfuno;


- Ffiniau caeau traddodiadol yn cael eu disodli gan ffensys modern;
- Newidiadau mewn arferion amaethyddol a strwythurau amaethyddol newydd;
- Datblygiadau tai yn ymestyn i mewn i'r system gaeau hanesyddol;
- Erydiad arfordirol;
- Colli waliau terfyn cerrig traddodiadol;
- Datblygiadau a newidiadau modern anaddas;
- Ymwybyddiaeth gyfyngedig o arwyddocâd yr ardal.

Beth ddywedodd y gymuned?

Daeth dros 50 o bobl i'r digwyddiad galw heibio cyhoeddus yn 2024. Roedd gan y bobl falchder lleol cryf yn Llansanffraid a bu cefnogaeth dros warchod ei hamgylchedd hanesyddol. Roedd y pryderon arbennig yn cynnwys datblygiad ac arferion ffermio sy'n newid yn effeithio ar y llain-gaeau, a'r angen am warchod a gorfodi cryfach. Bu cefnogaeth hefyd dros ymestyn yr Ardal Gadwraeth.

Casgliad


Mae Llansanffraid yn arbennig oherwydd prinder ei system gaeau ganoloesol sydd wedi goroesi, ei hadeiladau traddodiadol, ei heglwys hanesyddol a'i lleoliad gwledig ac arfordirol nodweddiadol. Y flaenoriaeth yw sicrhau bod y nodweddion hyn yn cael eu deall a'u gwarchod tra'n sicrhau bod unrhyw newid yn addas.



Ffigur 1: Tŵr Eglwys Sant Ffraed



Ffigur 2: Annedd Werinol



Ffigur 3: Llwybr Coblog ar hyd Heol-yr-Esgob



Ffigur 4: Colled debygol y wal derfyn



Ffigur 5: Golygfa o Forfa Esgob o'r awyr (Heneb, 2026)



Ffigur 6: cloddiau pridd isel (ffiniau caeau hanesyddol)



Ffigur 7: Golygfa o'r traeth



Ffigur 8: Siediau amaethyddol



Ffigur 9: Ffensys postion pren a gwifrau

Rhan 2: Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Llansanffraid – Crynodeb

Beth yw'r Cynllun Rheoli?

Mae Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Llansanffraid yn ymateb i'r problemau a nodwyd yn yr Arfarniad. Mae'n nodi'r argymhellion yma ar gyfer gwarchod a gwella'r Ardal Gadwraeth.

Dylid nodi mai argymhellion yw'r rhain yn hytrach nag ymrwymiadau cadarn a bydd angen ymgynghori pellach neu gymeradwyaeth ffurfiol ar rai ohonynt cyn iddynt gael eu cyflwyno.

Beth a argymhellir?

1. Rhoi mwy o ystyriaeth i'r Arfarniad wrth wneud penderfyniadau

Dylai'r Cyngor ystyried mabwysiadu'r Arfarniad a'r Cynllun Rheoli fel Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG). Bydd hyn yn darparu gwybodaeth gliriach i drigolion, datblygwyr a swyddogion cynllunio ac yn helpu i gefnogi gwneud penderfyniadau cyson o ran ceisiadau cynllunio.

2. Adolygu ffin yr Ardal Gadwraeth

Dylai'r Cyngor ystyried ymestyn y ffin i gynnwys llain-gaeau ychwanegol sydd wedi goroesi i'r gogledd o Forfa Esgob ac i'r dwyrain o'r Stryd Fawr, ynghyd ag adeiladau hanesyddol o gwmpas Stryd-y-Capel a Heol Non. Cynigir hefyd y dylid ystyried newid y ffin, fel nad yw Tŷ Breuddwyd wedi'i gynnwys o fewn yr Ardal Gadwraeth.

3. Ystyried rheolaethau cynllunio cryfach

Dylai'r Cyngor ystyried p'un a allai Cyfarwyddyd Erthygl 4 helpu i warchod cymeriad yr ardal. Byddai hyn yn golygu y byddai angen i'r Cyngor gymeradwyo darnau o waith penodol o fewn yr Ardal Gadwraeth na fyddai angen caniatâd cynllunio, fel arfer, cyn y gallent gael eu gwneud.

4. Gwarchod adeiladau a strwythurau hanesyddol sy'n bwysig yn lleol

Dylai'r Cyngor barhau i weithio ar sefydlu 'rhestr leol' ar gyfer Ceredigion. Gyda chymorth y gymuned, gallai'r Cyngor nodi adeiladau a strwythurau hanesyddol nad

ydynt yn adeiladau rhestredig. Dylid ystyried polisi ategol wedi hynny yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd sy'n sicrhau bod y strwythurau hyn wedi'u gwarchod a bod unrhyw newidiadau arfaethedig yn addas.

5. Gwella monitro a gorfodi

Dylai'r arolwg ffotograffig a baratowyd ochr yn ochr â'r Arfarniad ddarparu cofnod sylfaenol o'r Ardal Gadwraeth. Gall hyn helpu i nodi newidiadau niweidiol neu rai nas awdurdodwyd yn y dyfodol. Mae'r Cynllun hefyd yn cefnogi adnoddau gorfodi cynllunio ychwanegol, gan gynnwys arbenigedd treftadaeth adeiledig arbenigol.

6. Archwilio cofrestru Morfa Esgob

Dylai'r Cyngor barhau i drafod â Cadw p'un a fyddai'r system caeau agored ganoloesol ddod yn Heneb Gofrestredig er mwyn darparu mwy o warchodaeth iddi. Mae ei phrinder, ei goroesiad a'i natur fregus yn rhoi rheswm cryf dros archwilio gwarchodaeth bellach.

7. Gwella Ymwybyddiaeth

Dylai'r Cyngor weithio gyda'r gymuned, darparwyr addysg a sefydliadau megis Cadw a Heneb i wella'r ddealltwriaeth o hanes Llansanffraid. Gallai hyn gynnwys dehongli, prosiectau addysgol ac arwyddion gwell yn esbonio Morfa Esgob.

8. Cadw'r cynllun dan adolygiad

Dylai'r Cyngor barhau i fonitro'r Ardal Gadwraeth gan adolygu'r Arfarniad a'r Cynllun Rheoli o leiaf bob 10 mlynedd, gan gynnwys y gymuned lle bo'n bosibl.

Casgliad

Mae'r Cynllun Rheoli yn ymwneud â rhoi cydnabyddiaeth gryfach a gwarchodaeth ymarferol i amgylchedd hanesyddol Llansanffraid. Mae'n canolbwyntio ar warchod y system gaeau ganoloesol, rheoli datblygiad yn sensitif, diogelu adeiladau a ffiniau traddodiadol, gwella ymwybyddiaeth a monitro newid yn rheolaidd.

Ffigur 10: Newidiadau arfaethedig i Ffin yr Ardal Gadwraeth

